

Rhifyn 56
Cyfri'r Ceiniogau ym
Myd Chwaraeon

Dwy ochr y geiniog

Cwpan Pencampwyr UEFA, Juventus v Real Madrid, 3 o Fehefin 2017, Stadiwm y Principality, Caerdydd.
Edrychwch ar y lluniau yna ewch i Dasg 1.



Llun 1



Llun 2



Llun 3



Llun 4



Llun 5



Llun 6



Llun 7



Llun 8



Llun 9

Llun 1: [Cardiff Castle \(Champions League Final 2017\) 35174903946 fb876f1155 o - Ben Salter](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 2.0 Generic](#)

Llun 2: [UEFA Champions League Final Cardiff 2017 - Markos90](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 4.0 International](#)

Ni a nhw – wynebu’r gelyn!

Mae chwaraeon yn gallu dod â phobl at ei gilydd a’u troi’n elynion ar yr un pryd. Gall dod wyneb yn wyneb ar faes y gad achosi problemau. Dyma adroddiad papur newydd sy’n sôn am un digwyddiad arbennig flynyddoedd yn ôl.

Owens yn seren byd

BWLETIN BERLIN

15 AWST 1936

Roedd yna gyffro mawr yn y Stadiwm Olympaidd Berlin eto heddiw, wrth i sawl record gael ei thorri, gyda’r Americanwr, Jesse Owens, yn cipio pedair medal aur. Llwyddodd y gŵr o dras Affricanaidd i ennill ras y 100m, y 200m, y ras gyfnewid 100m a’r naid hir.



Llun: [Bundesarchiv Bild 183-R96374, Berlin, Olympiade, Jesse Owens beim Weitsprung](#) - Bundesarchiv, Bild 183-R96374 / CC-BY-SA 3.0 © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Germany](#)

Er hynny, yr Almaen ddaeth i frig tabl y medalau ac mae llawer o’r diolch am hynny i arweinydd y wlad, Adolf Hitler. ‘Mae chwaraeon yn ffordd o ddangos cryfder a chael gwared ar y gwan,’ dywedodd ar ddechrau Gemau Olympaidd Berlin bythefnos yn ôl. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ef wedi bod yn frwd iawn i ddangos bod yr Almaenwyr yn well na phawb arall ym mhob camp, ond nid oedd mewnfudwyr fel Iddewon a sipsiwn yr Almaen yn cael cystadlu.

Er bod disgwyl iddo gyflwyno’r medalau i’r enillwyr, gan gynnwys Jesse Owens, ar ddiwedd sesiwn y nos, gadawodd y stadiwm yn annisgwyl. Ond, llwyddodd i ysgwyd llaw ag athletwyr yr Almaen cyn mynd.



Fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=9Zn0zErRckc>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
maes y gad	cae brwydr, man lle mae dau dîm neu ddau berson yn wynebu ei gilydd	battleground
tras	cefndir teuluol, achau	ethnicity
ras gyfnewid	ras lle mae un rhedwr mewn tîm o bedwar yn pasio ffon i'r rhedwr nesaf	relay race
brig	top, pen uchaf	top
mewnfudwyr	pobl sydd wedi symud i wlad o wlad arall	immigrants
annisgwyl	rhywbeth sy'n digwydd yn sydyn, heb ei ddisgwyl	unexpectedly

Troi mewn cylchoedd

Mae llawer o gyffro ac edrych ymlaen pan fydd dinas yn clywed ei bod hi'n cael cynnal y Gemau Olympaidd – yn yr haf neu'r gaeaf.

Fideo: https://www.youtube.com/watch?v=5Dt4jJS_dyA

Mae llawer yn sôn fod y Gemau Olympaidd yn cael effaith ar ddinasoedd am flynyddoedd lawer wedyn gan eu bod yn cynnig:

- cyfle i fwynhau chwaraeon mewn cyfleusterau gwych
- cyfle i drïo chwaraeon newydd
- cyfle i bobl gadw'n heini a gwella'u hiechyd.

Ond, ydy hynny'n wir, tybed?

Montréal, Canada - Haf 1976

Cost y Gemau: £5.35 biliwn

Cost y Stadiwm: £1.23 biliwn

Maint: 73,000 sedd

Newyddion da: Stadiwm modern dros ben, yn edrych fel llong ofod, gyda thŵr uchaf y byd – ar y pryd – yn cael ei adeiladu

Newyddion drwg: Costiodd y stadiwm lawer mwy na'r disgwyl ac aeth 30 mlynedd heibio cyn i ddinas Montréal orffen talu amdano. Ers y Gemau Olympaidd, mae llawer o broblemau wedi bod, yn cynnwys y tŵr yn mynd ar dân, darnau o'r to'n disgyn a'r to'n hollti dan bwysau eira.

Newyddion heddiw: Does dim llawer yn digwydd yn y stadiwm heddiw, ond mae rhai o adeiladau eraill Gemau Olympaidd Montréal, fel y felodrom, yn dal i gael eu defnyddio.



Beijing, China - Haf 2008

Cost y Gemau: £31.7 biliwn

Cost y Stadiwm: £378 miliwn

Maint: 91,000 o seddau

Newyddion da: llawer o adeiladau newydd ar gyfer chwaraeon ar draws y ddinas

Newyddion drwg: llawer o bobl y wlad yn cael eu gorfodi i weithio ar yr adeiladau'n rhad ac am ddim

Newyddion heddiw: mae Stadiwm y Nyth Aderyn wedi cael ei adael yn wag a does neb yn ei ddefnyddio erbyn hyn. Ond, mae'n bosib trefnu mynd am daith o gwmpas y stadiwm i weld y lle.



PyeongChang, De Korea - Gaeaf 2018

Cost y Gemau: £9.8 biliwn

Cost y Stadiwm: £82.3 miliwn

Maint: 35,000 sedd

Newyddion da: Codi stadiwm newydd sbon siâp pentagon, heb do na gwres, er mwyn arbed ar y gost. Y stadiwm yn cael ei adeiladu mewn blwyddyn a deg mis.

Newyddion drwg: Cafodd y stadiwm ei adeiladu ar gyfer seremoni agoriadol Gemau Olympaidd y Gaeaf yn 2018 er bod pawb yn gwybod y byddai'n cael ei ddymchwel ar ôl i'r Gemau orffen.

Newyddion heddiw: Ar ôl cynnal 4 digwyddiad yn y stadiwm, cafodd ei ddymchwel er mwyn arbed costau i'r ddinas.



Llun: [Pyeongchang Olympic Stadium at day for 2018 Winter Paralympics opening ceremony - 1](#) - 김영준 (Kim Youngjun; @eun_gong) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 2.0 Korea](#)

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
dymchwel	bwrw i lawr	(to) demolish

Llwyddiant Ilithrig

CLECS KOREA

Roedd llygaid y byd ar Stadiwm Olympaidd PyeongChang neithiwr ar gyfer agoriad swyddogol Gemau Olympaidd y Gaeaf, 2018. Dyma'r trydydd tro ar hugain i Gemau'r Gaeaf gael eu cynnal, gan roi cyfle i wledydd y byd ddod at ei gilydd i gystadlu mewn chwaraeon a chystadlaethau Alpaidd o gwmpas ardal PyeongChang, De Korea. Dyma'r ddinas leiaf i fod yn gartref i Gemau'r Gaeaf ers 1994 yn Lillehammer, Norwy. Mae'r digwyddiad eleni yn fwy cyffrous na'r arfer oherwydd gwleidyddiaeth y rhan hon o Asia.

Eleni, bydd 2,922 o athletwyr yn cystadlu, 1,680 o ddynion a 1,242 o ferched, ac roedd y mwyafrif ohonyn nhw'n gorymdeithio neithiwr y tu ôl i faneri eu gwledydd yn y Seremoni Agoriadol. Ond golygfa ryfeddaf y seremoni oedd gweld athletwyr De Korea yn gorymdeithio ochr yn ochr ag athletwyr Gogledd Korea.



10 Chwefror 2018

Mae'r ddwy wlad wedi bod yn elynion ers diwedd Rhyfel Korea yn 1953. Mae'r Gogledd yn wlad gomiwnyddol, fel China, dan yr arweinydd ymfflamychol, Kim Jong Un. Aeth ei chwaer, Kim Yo Jong, i'r Seremoni Agoriadol. Dyma'r tro cyntaf ers diwedd Rhyfel Korea i aelod o deulu arweinydd Gogledd Korea ymweld â'r De.



Roedd Gogledd Korea wedi cynnig cynnal rhai o'r cystadlaethau sgiio yn ardal Wonson, rhanbarth Gangwon, ond gwrthododd De Korea. Dros gyfnod y Gemau hefyd, mae De Korea wedi newid y ffordd mae enw'r ddinas yn cael ei sillafu i PyeongChang - gyda 'C' fawr yng nghanol yr enw, rhag i bobl ddrysu gydag enw prifddinas Gogledd Korea, Pyongyang. Dim ond rhyw hanner can milltir sydd rhwng dinas PyeongChang â'r ffin niwtral rhwng y ddwy wlad.

Yn ôl Llywydd y Pwyllgor Olympaidd, Thomas Bach, roedd hyn yn dangos bod Gemau Olympaidd y Gaeaf yn PyeongChang yn symbol o "wawr newydd i wledydd y byd."

Geirfa


Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Alpaidd	rhywbeth sy'n perthyn i ardal mynyddoedd yr Alpau. Mae sgïo'n cael ei ddisgrifio fel camp Alpaidd	Alpine
hynod	rhywbeth arbennig neu unigryw	unique
gorymdeithio	cerdded mewn rhesi, fel mae milwyr yn ei wneud	(to) march
heriau	pethau sy'n anodd eu hwynebu neu i ddelio â nhw	challenges
gwleidyddiaeth	y ffordd mae rhywbeth yn cael ei redeg neu ei drefnu	politics
comiwnyddol	system o fewn gwlad lle mae pawb yn rhannu'r gwaith a'r arian mor gyfartal â phosib	communist
ymfflamychol	tanllyd iawn a hoff o gweryla	inflammatory
ffin niwtral	darn o dir rhwng dwy wlad sy'n elynion lle nad oes hawl cadw byddin nac arfau, er mwyn stopio rhyfel	neutral zone
llywydd	pennaeth neu arweinydd, yr un sydd â'r gair olad mewn cwmni neu sefydliad	president

Arian, arian, arian!

Mae'r 100 seren o fyd chwaraeon sydd wedi ennill y symiau mwyaf o arian yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dod o 23 gwlad wahanol ac yn cymryd rhan mewn 11 math gwahanol o chwaraeon. Mae 65 yn Americanwyr a 40 yn chwaraewyr pêl fasged. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, maen nhw wedi ennill £2.9 biliwn rhyngddyn nhw, gyda 23% o'r arian hwnnw'n arian nawdd.

Ond pwy yw'r sêr mwyaf cyfoethog?

FFEIL-O-FFAITH SÊR BYD CHWARAEON



Llun: [Floyd Mayweather, Jr. cropped](#) - Official Marine Corps photo by Lance Cpl. Steven H. Posy © Wikimedia Commons

1.

Enw - Floyd Mayweather

Camp - Bocsio

Cyfanswm ei enillion - £211 miliwn

Arian nawdd - £7.68 miliwn

Gwlad - UDA



Llun: [Lionel Messi, 2011](#) - [Jeroen Bennink](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 2.0 Generic](#)

2.

Enw - Lionel Messi

Camp - Pêl-droed

Cyfanswm ei enillion - £64.5 miliwn

Arian nawdd - £20.7 miliwn

Gwlad - Ariannin



Llun: [Cristiano Ronaldo 2018](#) - Анна Хэссу © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported](#)

3.


Enw - Cristiano Ronaldo

Camp - Pêl-droed

Cyfanswm ei enillion - £46.8 miliwn

Arian nawdd - £36 miliwn

Gwlad - Portiwgal



Llun: [Conor McGregor 2016](#) - Finish Line © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution 3.0 Unported](#)

4.

Enw - Conor McGregor

Camp - Bocsio Cymysg

Cyfanswm ei enillion - £65.2 miliwn

Arian nawdd - £10.7 miliwn

Gwlad - Iwerddon



Llun: [Bra-Cos \(1\)](#) - Кирилл Венедиктов © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported](#)

5.

Enw - Neymar

Camp - Pêl-droed

Cyfanswm ei enillion - £56 miliwn

Arian nawdd - £13 miliwn

Gwlad - Brasil



Llun: [Darius Songaila NBA 16](#) - Keith Allison © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic](#)

6.


Enw - LeBron James

Camp - Pêl-fasged

Cyfanswm ei enillion - £65.5 miliwn

Arian nawdd - £44 miliwn

Gwlad - UDA



Llun: [Federer WM16 \(37\) \(28136155830\)](#) - [si.robi](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic](#)

7.

Enw - Roger Federer

Camp - Tennis

Cyfanswm ei enillion - £59.3 miliwn

Arian nawdd - £50 miliwn

Gwlad - Y Swistir



Llun: [Stephen Curry close up](#) - [Noah Salzman](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported](#)

8.

Enw - Stephen Curry

Camp - Pêl-fasged

Cyfanswm ei enillion - £59 miliwn

Arian nawdd - £32 miliwn

Gwlad - UDA



Llun: [Matt Ryan training camp 2014 - Thomson200](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons CC0 1.0 Universal Public Domain Dedication](#)

9.

Enw - Matt Ryan

Camp - Pêl-droed Americanaidd

Cyfanswm ei enillion - £47.8 miliwn

Arian nawdd - £3.84 miliwn

Gwlad - UDA



Llun: [Matthew stafford 2014 - Mike Morbeck](#) © Wikimedia Commons o dan drwydded [Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic](#)

10.

Enw - Matthew Stafford

Camp - Pêl-droed Americanaidd

Cyfanswm ei enillion - £44 miliwn

Arian nawdd - £1.5 miliwn

Gwlad - UDA

I'r pant y rhed y dŵr

30 Mehefin 2018

Annwyl Olygydd y Daily Post,

Ysgrifennaf atoch i ddweud pa mor rhwystredig ydw i ynglŷn â Chlwb Pêl-droed Lerpwl a'r ffordd annheg y mae'n talu cyflogau i'w chwaraewyr a'i weithwyr eraill.

Rydw i wedi bod yn cefnogi'r tîm erioed, ac yn mwynhau gwyllo'r cochion yn chwarae wrth ymweld â'r Kopp yn eu gemau gartref. Er bod gan Lerpwl dîm arbennig a bod llawer o'u chwaraewyr yn arwyr i mi, rydw i'n poeni'n fawr eu bod nhw'n derbyn llawer gormod o gyflog am eu gwaith a bod llawer gormod o arian yn cael ei wario ar chwaraewyr ym myd pêl-droed yn gyffredinol. Dyna i chi Philippe Coutinho, a gafodd ei werthu gan Lerpwl i Barcelona am £142 miliwn ar ôl prynu Virgil Van Dijk o Southampton am £78 miliwn.

Mae llawer o bobl eraill yn gweithio i glwb pêl-droed fel Lerpwl, heblaw'r chwaraewyr. Ar ben arall y sbectrwm, mae'r cynorthwyrwyr a'r staff achlysurol - tua 1,000 ohonyn nhw - sy'n cael eu talu ond £8.45 yr awr. Dim ond yn ddiweddar y cytunodd y clwb i godi'r cyflog i'r ffigwr hwn, er mwyn talu Graddfa Cyflog Byw. Bydd y dynion a'r merched sy'n gwneud yn siŵr fod y sioe yn Anfield yn rhedeg yn esmwyth yn derbyn eu codiad cyflog o 95c yr awr ym mis Mehefin 2018, yn barod ar gyfer dechrau'r tymor newydd.

Ar adeg pan mae cymaint o dlodi yn dal i'w weld yn ninas Lerpwl a gweddill Prydain, does bosib y gallai arian cyflogau chwaraewyr y tîm pêl-droed gael ei rannu'n fwy cyfartal rhwng y staff i gyd. Gallai'r clwb hefyd gyfrannu mwy at elusennau'r ddinas wedyn, efallai, yn cynnwys yr ysbytai lleol a chefnogi pobl ifanc.

Yn gywir,

Siôn Gwilym

02 Gorffennaf 2018

Annwyl Olygydd y Western Mail,

Mae'r byd wedi mynd yn hollol wallgo! Neu, o leiaf y byd pêl-droed! Ers pryd mae unrhyw chwaraewr yn werth cyflog o £600,000 yr wythnos, neu £28.8 miliwn y flwyddyn! Dyna beth mae tîm pêl-droed Paris St Germain wedi cytuno i dalu i'r chwaraewr o Frasil, Neymar. Gwych neu beidio, dim ond cicio pêl o un diwrnod i'r llall mae e'n ei wneud. Yn fy marn i, dydy hyn ddim yn gwneud synnwyr o gwbl.

Mewn cymhariaeth, mae Prif Weinidog Prydain - sy'n gyfrifol am redeg y wlad - yn ennill cyflog o £150,402 y flwyddyn, mae meddyg teulu profiadol yn ennill hyd at £84,500 am 50 awr yr wythnos ac athro neu athrawes yn syth o'r coleg yn ennill o gwmpas £22,917 y flwyddyn. Gall rhai chwaraewyr pêl-droed ennill cyflog athro mewn awr, a chyflog prif weinidog mewn diwrnod - er nad oes bywyd neb yn dibynnu arnyn nhw.

Sawl ysgol neu ysbyty newydd fyddai'n bosib ei adeiladu am £28.8 miliwn Neymar tybed?!

Gan ddiolch i chi am roi sylw i'm llythyr.

Angharad Morris

Chwaraeon – yr ateb i bopeth

Y Peiriant Ateb

www.ypeiriantateb.cymru



Oes enghreifftiau o wleidyddiaeth yn effeithio ar chwaraeon rhyngwladol?

Mae gan chwaraeon y gallu i godi calonnau pobl ar adegau anodd.

- **Cwpan Rygbi'r Byd, De Affrica 1995**

Ar ôl degawdau o rwygiadau oherwydd apartheid, daeth y bobl wyn a'r bobl ddu yn Ne Affrica at ei gilydd i gefnogi eu tîm rygbi, y Springboks, wrth iddyn nhw fynd ymlaen i ennill Cwpan Rygbi'r Byd y flwyddyn honno o dan arweiniad y capten ysbrydoledig, Francois Pienaar. Un o ddelweddau mwyaf cofiadwy'r bencampwriaeth oedd arlywydd y wlad, Nelson Mandela, yn cyflwyno'r Cwpan i gapten De Affrica. Gwelwyd llawer o welliannau yn Ne Affrica o safbwynt apartheid ar ôl y digwyddiad hwn.

Bron ugain mlynedd ynghynt, roedd sefyllfa apartheid De Affrica wedi achosi trafferthion yng Ngemau Olympaidd Montréal yn 1976, pan wrthododd 25 o wledydd Affrica fynd i'r Gemau oherwydd bod tîm rygbi Seland Newydd, y Crysau Duon, wedi

mynd ar daith rygbi yno yn gynharach yn y flwyddyn. Digwyddodd y daith pan oedd apartheid yn dal yn ei anterth.

Oes enghreifftiau o arian yn dylanwadu ar chwaraeon rhyngwladol?

Mae dylanwad arian i'w weld yn drwm ar fyd chwaraeon, ac yn fwy fyth yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hynny'n digwydd yn bennaf drwy gyfrwng arian nawdd, sef pan fydd cwmnïau mawr yn rhoi arian i chwaraewyr unigol neu i dimau er mwyn hysbysebu eu brand nhw. Mae llawer o brif ddigwyddiadau byd chwaraeon hefyd yn cael eu noddi, er enghraifft:

- Cwpan Heineken – rygbi
- Uwch Gynghrair Barclays – pêl-droed

Mae gan ambell stadiwm enwau noddwyr:

- Stadiwm y Principality – Caerdydd
- Stadiwm yr Emirates – Arsenal
- Stadiwm Aviva – Dilyn

Mae gan nifer o dimau noddwyr:

- WRW Construction – Y Sgarlets
- ISUZU – Tîm Rygbi Cymru

Bellach, mae nawdd i fyd chwaraeon oddi wrth gwmnïau tybaco wedi'i wahardd ym Mhrydain. Gall y fath nawdd fod yn werthfawr iawn, ond mae'r llywodraeth yn gweld bod tybaco'n niweidiol iawn i iechyd pobl, ac felly mae'n dymuno peidio â'i hyrwyddo.



Oes pobl wedi marw oherwydd gwleidyddiaeth ym myd chwaraeon?

Gall cymysgu chwaraeon a gwleidyddiaeth fod yn niweidiol iawn, gan arwain at ganlyniadau trychinebus.

- **Gemau Olympaidd Munich, 1972**
Gwleidyddiaeth oedd wrth wraidd y trychineb yng Ngemau Olympaidd Munich pan gafodd 11 o athletwyr o Israel ac un heddwes eu lladd gan grŵp terfysgol o Balestina, y

Black September. Cafodd yr athletwyr eu cymryd yn wystlon cyn cael eu saethu'n farw. Cafodd pump o'r terfysgwyr eu lladd gan heddlu arfog wrth iddyn nhw geisio achub yr athletwyr, ond llwyddwyd i ddal pump arall. Roedd y terfysgwyr yn galw am ryddhau 234 o garcharorion Palestinaidd oedd wedi eu carcharu yn Israel. Ond, ar ôl i awyren o'r Almaen gael ei herwgipio fis yn ddiweddarach, cytunodd llywodraeth yr Almaen i ryddhau'r terfysgwyr yn gyfnewid am ddychwelyd yr awyren a'r teithwyr.

Ydy arian yn ddylanwad da neu'n ddylanwad drwg ar fyd chwaraeon?

Mae arian yn gallu helpu i ddatblygu byd chwaraeon ond mae hefyd yn gallu bod yn broblem. Rhai o'r problemau mwyaf yw:

- gamblo ar ganlyniadau o fyd chwaraeon
- llwgrwobrwyo er mwyn dylanwadu ar ganlyniadau rasys a gemau
- llwgrwobrwyo er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau

Er bod FIFA wedi penderfynu mai Qatar, yn y Dwyrain Canol, fydd cartref Cwpan Pêl-droed y Byd yn 2022, mae llawer o gwyno o hyd ynglŷn â hynny. Gan fod y wlad mor eithriadol o boeth, sy'n golygu y bydd chwarae gemau mewn tymheredd mor uchel yn hynod o anodd, mae rhai gwledydd wedi awgrymu bod swyddogion a llywodraeth Qatar wedi dylanwadu ar benderfyniad FIFA drwy gynnig symiau mawr o arian. Wedi'r cwbl, gyda holl gyfoeth olew'r wlad, gall Qatar fforddio gwneud hynny! Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer y digwyddiad eisoes wedi dechrau, gyda 9 stadiwm newydd sbon, modern dros ben, yn cael eu hadeiladu yno.



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Springboks	yr enw ar dîm rygbi De Affrica	Springboks
apartheid	y drefn o gadw pobl wyn a phobl ddu ar wahân	apartheid
gwahardd	rhwystro, atal, stopio	forbid

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
gwystl	pobl sy'n cael eu cadw yn rhywle a'u rhwystro rhag gadael	hostages
terfysgwyr	pobl sy'n niweidio, lladd a dial ar bobl eraill yn enw achos arbennig	terrorists
llwgrwobrwyo	talw arian i rywun wneud rhywbeth er mwyn eich helpu chi, fel arfer yn groes i'r graen neu yn groes i'r rheolau neu'r gyfraith	blackmail

Ffordd o feddwl

Wrth i bobl sylweddoli fod chwaraeon yn gallu gwneud lles i'r iechyd, mae mwy a mwy o bwyslais yn cael ei roi ar chwaraeon fel diwylliant, neu ffordd o feddwl.

Yn 1995, cafodd mudiad ISCA ei sefydlu yn Copenhagen, Denmark, sef Cymdeithas Ryngwladol Chwaraeon a Diwylliant. Erbyn heddiw, mae'n gweithio ar 4 cyfandir mewn dros 70 o wledydd ar draws y byd. Bwriad y mudiad yw gweithredu fel rhyw fath o ymbarél, gan dynnu at ei gilydd lawer o wahanol fudiadau a sefydliadau sydd ddim yn gysylltiedig â llywodraeth unrhyw wlad:

- i hybu chwaraeon ym mhob gwlad ar hyd a lled y byd
- i wneud yn siŵr fod cymaint o bobl â phosib yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon
- i wneud yn siŵr fod pob ifanc yn cymryd mwy o ran mewn chwaraeon
- i wneud yn siŵr fod pobl o bob cefndir ethnig a diwylliant yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon
- i hybu chwaraeon fel ffordd o fagu cysylltiadau a chwalu ffiniau
- i hybu chwaraeon fel ffordd o ddangos hunaniaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn frwd iawn i weld chwaraeon yn datblygu fel diwylliant. Mae'n cynnig grantiau a chefnogaeth i unigolion a chymdeithasau i ddatblygu chwaraeon a hybu ffitrwydd ym mhob cwr o Gymru, o athletwyr ifanc talentog i rai sydd erioed wedi cymryd rhan mewn unrhyw fath o chwaraeon o'r blaen. Mae'r grantiau'n gallu helpu i brynu offer newydd ac i hyfforddi gwirfoddolwyr neu hyfforddwyr newydd er mwyn sefydlu tîm newydd yn y gymuned.

Llwyddiant

Yng Nghasnewydd dros y blynyddoedd diwethaf, mae prosiect chwaraeon wedi arwain at newid mewn ymddygiad ymhlith pobl ifanc. Mae rhaglen **Dyfodol Positif** yn defnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel ffordd o ddenu pobl ifanc sy'n wynebu'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddu. Drwy dargedu pobl ifanc rhwng 10 a 19 oed, mae'r rhaglen yn cynnig:

- opsiynau positif yn lle ymddygiad gwrthgymdeithasol
- chwaraeon lleol heb fawr ddim cost i'r rhai sydd eisiau cymryd rhan
- cyfleoedd gwirfoddoli ac arwain
- cymwysterau i bobl ifanc
- cefnogaeth i bobl ifanc sy'n wynebu risg er mwyn pwysleisio lles iechyd chwaraeon i bawb yn hytrach na'u bod yn cael eu cyfyngu i'r rhai sy'n dalentog yn y maes.

Yn 2017, cymerodd 22,640 o bobl ran yn rhaglen **Dyfodol Positif** Casnewydd. Newidiodd y rhaglen fywydau llawer iawn o bobl ifanc yr ardal.

Stori Personol

Roedd gan un person ifanc a gymerodd ran yn y rhaglen lawer o broblemau. Roedd e wedi cael ei eithrio o'r ysgol gyfun ac wedi'i wahardd rhag chwarae rygbi am bedwar mis ar ôl taro un o'i hyfforddwyr. Ar ôl gweithio gyda mentor chwaraeon, mae e'n mynd i ysgol yn Henffordd erbyn hyn, ac yn chwarae rygbi gyda'i glwb unwaith eto. Mae'n anelu at ddilyn gyrfa ym maes hyfforddi chwaraeon.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
mudiad	grŵp neu gymdeithas	association
sefydlu	creu rhywbeth o'r newydd	establish
gweithredu	gwneud rhywbeth neu gymryd rhan	act
hunaniaeth	yr hyn sy'n gwneud person yn unigolyn	identity
diwylliant	syniadau, arferion neu'r ffordd mae grŵp o bobl yn ymddwyn	culture
gwrthgymdeithasol	ymddygiad sy'n debygol o gynhyrfu neu ddiflasu pobl eraill o fewn y gymdeithas	antisocial
eithrio	pan fydd rhywun yn cael ei rwystro rhag gwneud rhywbeth	exclude

I'r gad!



A ddylai mwy o ddigwyddiadau chwaraeon ddod i Gymru?

Dydy hi ddim yn gyfrinach fod chwaraeon yn fusnes mawr. Mae arian yn gallu llifo i mewn i ardal neu ddinas sy'n cynnal rhai o brif ddigwyddiadau'r byd chwaraeon.

Mae cynnal digwyddiad chwaraeon mawr yn gallu newid y dirwedd.

Pan ddaeth Cwpan Rygbi'r Byd i Gaerdydd yn 1999, codwyd Stadiwm y Mileniwm yng nghanol y ddinas i gymryd lle'r hen Barc yr Arfau.



Pan ddaeth Cwpan Ryder i'r Celtic Manor ger Casnewydd yn 2010, roedd y cwrs golf yno wedi'i gynllunio a'i adeiladu'n arbennig ar gyfer yr achlysur.

Ond beth am y dyfodol?

Yn eu haddewidion ar gyfer Etholiad y Cynulliad yn 2016, roedd Plaid Cymru a'r Blaid Lafur yn frwd i gefnogi'r syniad o ddenu Gemau'r Gymanwlad i Gymru naill ai yn 2026 neu 2030. Dyma beth oedd gan Brif Weinidog Cymru i'w ddweud am y syniad ar raglen newyddion Radio Cymru heddiw:

Y Prif Weinidog: Byddai denu digwyddiad chwaraeon o raddfa Gemau'r Gymanwlad yn hwb aruthrol i Gymru. Gyda thîm Cymru'n cystadlu hefyd, byddai'r Gemau'n sbardun i undod cenedlaethol, ac yn rhoi cyfle i bobl y wlad arddangos eu balchder a'u cefnogaeth i'w gwlad, fel sy'n digwydd yn achos y Gemau Olympaidd a Chwpan y Byd. Er nad yw Gemau'r Gymanwlad yn cynnwys cymaint o wledydd â'r Gemau Olympaidd, byddai denu'r fath ddigwyddiad i Gymru'n bendant yn hwb anferth i'r economi. Byddai angen lleoliadau ar gyfer athletau, pêl-droed, rygbi, hoci, nofio, beicio, saethu a phob math o gampau eraill, felly gallai sawl rhan o'r wlad elwa - nid dim ond dinas fel Caerdydd.

Sylwebydd: A fyddai manteision penodol eraill?

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs, mae'r potensial yn enfawr. Yn gyntaf, fe fyddai proffil Cymru ar lwyfan y byd yn cynyddu, a phwy a wŷr faint yw gwerth hynny yn y tymor hir. Hefyd, byddai'n rhoi hwb i'r economi, gyda galw am weithwyr i ddatblygu lleoliadau a mwy o arian oddi wrth ymwelwyr a chefnogwyr sy'n dod i'r Gemau. Byddai gwneud yn siŵr bod mwy o gyfle ar gyfer hyfforddiant a phrentisiaethau hefyd yn nod.

Sylwebydd: Beth am fanteision i weddill y wlad?

Y Prif Weinidog: Wel, yn naturiol, byddai'n rhaid i unrhyw gynlluniau o ran gwella adeiledd Cymru fod wedi eu cwblhau erbyn dechrau'r Gemau, yn cynnwys gwella ffyrdd, rheilffyrdd a chysylltiadau eraill. Byddai mwy o frys, felly, i orffen y fath gynlluniau, a byddai hynny er lles pawb.

Sylwebydd: A fyddai unrhyw fanteision tymor hir?

Y Prif Weinidog: Er nad oes digon o dystiolaeth eto fod Gemau Olympaidd Llundain 2012 na Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014 wedi rhoi hwb mawr i iechyd a ffitrwydd, y gobaith yw y bydd canlyniadau'n dangos hynny yn y pen draw. Gallai'r un math o hwb, felly, ddigwydd i iechyd a ffitrwydd pobl yng Nghymru.

Sylwebydd: Felly, beth fydd angen penderfynu cyn i Lywodraeth Cymru ddweud os yw'n mynd i wneud cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad neu beidio?

Y Prif

Weinidog:

Wel, cwestiwn anodd. Bydd angen tipyn o drafod a phenderfynu ynglŷn â beth allai cost cynnal y Gemau fod ac a fydd Cymru, mewn gwirionedd, yn gallu fforddio cynnal y Gemau. Wedi'r cwbl, dydyn ni ddim eisiau i wasanaethau eraill ddiodef. Ac mae materion eraill sydd angen eu trafod hefyd. Oes digon o leoliadau yng Nghymru i gynnal yr holl gystadlaethau? A fydd hi'n bosib i bobl deithio'n rhwydd rhwng y gwahanol leoliadau? Oes digon o lety yng Nghymru ar gyfer yr holl athletwyr a'r cefnogwyr? Pa mor debygol yw hi y bydd Cymru'n llwyddo gyda'i chais? Unwaith y bydd gyda ni atebion i'r cwestiynau hyn i gyd, wedyn gallwn ni symud ymlaen, gobeithio!

Sylwebydd: Brif Weinidog, diolch o galon i chi am eich amser, a phob hwyl gyda'r trafodaethau.

<https://www.insidethegames.biz/media/file/46070/161011atish10616doc1.pdf>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
undod	bod fel un	unity
Cymanwlad	y gwledydd ar draws y byd oedd yn arfer cael eu rheoli gan Brydain	Commonwealth
economi	system arian gwlad	economy
elwa	ennill rhywbeth, yn enwedig arian neu brofiad	benefit
prentisiaethau	cyfle i rywun ddysgu crefft neu ffordd o weithio	apprenticeships
adeiledd	trefn ffyrdd, rheilffyrdd, teithio a gwasanaethau	infrastructure